



Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: SCHTh 75-2017

Cais

Mae llawer iawn o amser yn cael ei dreulio'n tywys y gosgorddion llwyth annormal ddwywaith y dydd o Abertawe i safle fferm wynt Gorllewin Brechfa ar yr A485 i'r gogledd o Gaerfyrddin. Mae hyn wedi bod yn mynd ymlaen ers misoedd, ac rydw i wedi gweld â'm llygaid fy hun sawl beiciwr modur yr heddlu mae hynny'n cymryd, yn ogystal â cherbyd heddlu.

Rwy'n falch bod yr heddlu wedi bod yn diogelu'r cyhoedd fel hyn ac yn ceisio sicrhau nad yw cerbydau brys yn cael eu hatal fel gweddill y traffig, sef rhywbeth arall rydw i wedi gweld â'm llygaid fy hun. Dangoswyd pwysigrwydd hyn pan, er tristwch, cafodd dyn lleol a oedd yn ceisio cyrraedd adran ddamweiniau ac achosion brys Ysbyty Glangwili â char ei ddal yn y dagfa draffig, a bu farw ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.

1. Fodd bynnag, hoffwn wybod faint mae hyn yn costio o ran amser staff heddlu a milltiredd/cynnal a chadw cerbydau.
2. Hefyd, a yw'r datblygwr fferm wynt, RWE Innogy, wedi derbyn anfoneb ar gyfer y gost lawn?
3. Ac a yw'r datblygwr wedi talu? Neu a yw'r heddlu wedi ysgwyddo rhywfaint o'r gost?
4. Rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth y dylai'r cyhoedd wybod. Hyd yn oed os yw'r costau llawn wedi'u bodloni, a fu hi'n bosibl ôl-lenwi'r swyddi, fel nad yw amser heddlu ar gyfer gwaith arall wedi ei leihau?

Ymateb 1:

Medraf gadarnhau bod Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth rydych chi'n ceisio, fel yr amlinellir isod.

Amcangyfrifwyd mai'r cyfanswm cost amcanol yw £750,000. Ni fydd cost lawn y weithred yn hysbys hyd nes y bydd wedi'i chwblhau ar 4 Tachwedd 2017 gan fod y costau gwirioneddol yn cael eu cofnodi ar sail fisol ac mae'r datblygwr yn derbyn anfoneb fisol er mwyn adlewyrchu'r gwir gostau.

Ymateb 2:

Medraf gadarnhau bod Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth rydych chi'n ceisio, fel yr amlinellir isod.

Dyma ymateb o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddatgelwyd ar 7 Tachwedd 2017

Mae'r datblygwr fferm wynt yn derbyn anfoneb fisol er mwyn adlewyrchu cost y weithred. Mae'r costau misol yn benodol a gwirioneddol, ac yn adlewyrchu nifer y teithiau a wneir pob dydd.

Ymateb 3:

Medraf gadarnhau bod Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth rydych chi'n ceisio, fel yr amlinellir isod.

Mae'r datblygwr yn gyfrifol am holl gostau'r weithred o dan weithdrefnau ar gyfer codi tâl am wasanaethau arbennig gan yr heddlu gan gynnwys amser swyddogion heddlu, milltired, cynhaliaeth, cynnal a chadw cerbydau a llety.

Ymateb 4:

Medraf gadarnhau nad oes gwybodaeth yn cael ei dal gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh). Fodd bynnag, efallai bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth hon.